Front page

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Asesu Anghenion Poblogaeth Adroddiad Rhanbarth Gwent

Crynodeb

Greater Gwent Health, Social Care & Well-being Partnership
Partneriaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf

Sut i edrych ar yr Asesiad Poblogaeth

‘Yr hyn ydyw a’r hyn nad ydyw!’

1.Nid yw'r Asesiad Anghenion Poblogaeth ('Asesiad') yma yn rhestr gynhwysfawr o ddata graffigol ond mae'n cynnwys atodiadau sy'n cynnwys mwy o ddata.

2.Bydd yr Asesiad yma yn cynnwys cysylltiadau i wybodaeth arall sy'n cefnogi megis yr Asesiadau Llesiant lleol sydd eu hangen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol - nid ydym eisiau dyblygu adrannau mawr o wybodaeth yn yr Asesiad hwn a gaiff eu cynnwys mewn dogfennau eraill.

3. Mae'r Asesiad yn defnyddio pecyn cymorth cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus.

4. Ni fydd yr Asesiad yma'n cynnwys neu'n cyfeirio at bob ffynhonnell data sydd ar gael gan y byddai'n rhy fawr, ond byddwn yn defnyddio catalog data'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a ddatblygwyd gan Uned Data Cymru fel man cychwyn.

5. Mae'r Asesiad hwn yn seiliedig ar farn dinasyddion a darparwyr, ac mae cyd-gynhyrchu yn egwyddor dylunio greiddiol. Fe wnaeth dinasyddion a darparwyr helpu i ddynodi'r canlyniadau blaenoriaeth dan bob thema greiddiol.

6. Bydd yr Asesiad yma'n defnyddio'r ymchwil ddiweddaraf. Nid yw'n defnyddio dull 'dalen wag' gan fod nifer o asesiadau anghenion blaenorol a chyfredol a datganiadau safleoliad marchnad sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol. Hefyd, mae adroddiadau cenedlaethol megis y GIG yn rhoi data gwerthfawr y bydd yr Asesiad hwn yn ei gynnwys, ond nid ei atgynhyrchu.

7. Bydd y penodau thema creiddiol yn darllen fel crynodebau gweithredol ac yn amlygu blaenoriaethau rhanbarthol a hefyd y partneriaethau a’r gwasanaethau lefel uchel a all gefnogi’r agenda.

8. Bydd y penodau thema creiddiol hefyd yn cynnwys rhestr o gamau gweithredu yr awgrymir eu cynnwys yn y Cynllun Ardal rhanbarthol sylfaenol sydd ei angen ar ôl cyhoeddi'r Asesiad yma - eto nid yw'r rhestr yma'n cynnwys popeth ond yn fan cychwyn a

chaiff ei ddatblygu ymhellach wrth gynhyrchu'r Cynllun Ardal ar y cyd.

9. Yr Asesiad hwn yw'r cyntaf o'i fath a bydd yn gosod cyfeiriad teithio ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - mae'n 'ffenestr siop' yn nhermau blaenoriaethau a chamau nesaf - a chaiff dadansoddiad mwy manwl, mapio gwasanaethau a chamau gweithredu eu nodi yn y Cynllun Ardal rhanbarthol sydd ei angen erbyn Ebrill 2018.

Rhagair

Mae Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent yn falch i gyhoeddi Asesiad Anghenion Poblogaeth cyntaf y rhanbarth dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fydd yn ganolog i hyrwyddo llesiant, cefnogi pobl ar y cyfle cyntaf i gynnal eu hannibyniaeth a helpu pobl i helpu eu hunain yn well.

Rydym yn byw mewn cyfnod o gyni gyllidol parhaus a bydd angen i'r blaenoriaethau a ddynodwn ac y gweithiwn mewn partneriaeth i'w darparu hefyd sicrhau fod gwasanaethau yn gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol. Yn ogystal â lefel angen ar draws y rhanbarth, mae'r asesiad hwn o anghenion hefyd yn rhoi ymateb y rhanbarth i'r angen a ddynodwyd yn ogystal â chynnig y camau nesaf sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn. Bydd Partneriaeth Ranbarthol Gwent yn awr yn rhoi'r geiriau hynny ar waith drwy waith partneriaeth da a rhannu nodau ac uchelgeisiau.

Yn olaf, i sicrhau y caiff yr asesiad hwn o anghenion yr effaith a ddymunir, mae angen i ni ymgysylltu gyda'n dinasyddion ac rydym yn falch fod cynifer o bobl a phartneriaid wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau cyn-ymgysylltu ac ymgynghori i'n helpu i ddynodi beth sydd bwysicaf. Credwn mai diwylliant ac nid proses yw ymgysylltiad, a byddwn yn parhau i ymgysylltu bob cam o'r ffordd drwy ein gwahanol baneli a grwpiau asiantaeth partner rhanbarthol.

Phil Robson
Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Is-gadeirydd Interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cadeirydd Panel y Dinasyddion

Roedd Panel Dinasyddion Gwent yn falch iawn i dderbyn cyflwyniad ar yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth ym mis Gorffennaf 2016. Croesawyd y cadarnhad hwn fod anghenion a blaenoriaethau gwasanaeth yn cael eu cymryd o ddifrif calon. Rhoddodd hefyd lefel o ddealltwriaeth o'r asesiadau a ganiataodd i aelodau'r panel fynd yn ôl at y grwpiau yn eu hardaloedd a darlledu'r asesiadau ar gyfer eu cwblhau.

Treuliodd fy ngrŵp cysylltiedig fy hun, Fforwm Pobl Dros 50 Caerffili, beth amser yn trafod yr Asesiad hwn yn ein Grŵp Llywio a bu modd i ni gyflwyno asesiad cynhwysfawr yn cwmpasu pob agwedd lle teimlem fod diddordebau a blaenoriaethau'r person hŷn yn bwysig. Fe wnaethom sylweddoli maint y dasg wrth ymestyn allan i gasglu'r data ond roeddem yn falch iawn i gymryd rhan yn y broses. Dyfyniad o'n cyfarfod: "Mae hwn yn waith caled - gobeithio eu bod yn gwrando".

Chris Hodson
Cadeirydd Panel y Dinasyddion

Core Theme / Thema Graidd..... Camau i'w datblygu drwy'r Cynllun Rhanbarthol

Children and Young People/Plant a Phobl Ifanc

- Cefnogi adolygiad o drefniadau lleol y Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth a darparu rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar Blant sy'n Derbyn Gofal.

- Modelau ymarfer sy'n gyson ac alinio rhaglenni ymyrraeth gynnar ac ataliol Llywodraeth Cymru.

- Datblygu a chyflwyno cynllun gweithredu ACE rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc drwy asedau cymunedol.

Older People/ Pobl Hŷn

- Datblygu dull sy'n seiliedig ar le 'Gofal yn nes i'r Cartref' gan ddarparu cysylltwyr cymunedol yn gyson ar draws y rhanbarth i leihau ynysu cymdeithasol.

- Datblygu ymhellach 'Cymunedau Sy'n Ystyriol o Ddementia'.

- Datblygu proses comisiynu gofal cartref ar y cyd â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gysylltiedig ag Adroddiad Safonau Gofal gwelliannau Cymdeithasol 'Uwchlaw a Thu Hwnt' a Chynllun Strategol Gofal a Chymorth yn y Cartref sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Gyngor Gofal Cymru.

Health/Physical Disabilities/ Iechyd/Anableddau Corfforol

- Rhoi Strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref' ar waith.

- Alinio â'r 5 Asesiad Lles lleol sydd eu hagen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac archwilio cynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer newidiadau ehangach i iechyd.

Learning Dis/Aut....Anableddau Dysgu/Awtistiaeth

Cefnogi Adolygiad Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Strategaeth Gwent ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu 2012/17 a nodi camau gweithredu integreiddio a chomisiynu rhanbarthol, allweddol.

- Rhoi Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar waith yn lleol gan gynnwys datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd .

Ment health..../Iechyd Meddwl

- Adolygu ac alinio strategaethau rhanbarthol ar gyfer cynllun cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

- Cydlynu gwasanaethau cymunedol cyson fel cysylltwyr cymunedol/rhagnodwyr cymdeithasol.

- Modelau amlasiantaeth yn seiliedig ar le, fydd yn cynnwys partneriaid ehangach fel Cymdeithasu Tai, cymorth cyflogaeth a rhaglenni cymunedol.

- Gwybodaeth fanwl gywir, Cyngor a Chymorth trwy DEWIS a Phum Awgrym Llesol.

Page 5
Core Theme / Thema Graidd...Camau i'w datblygu drwy'r Cynllun Rhanbarthol

Sensory Imp....Nam ar y Synhwyrau

- Defnyddio arferion da a llwybrau effeithiol i ddatblygu egwyddorion comisiynu rhanbarthol.
- Sicrhau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n gywir, hygyrch ac amserol drwy DEWIS a dulliau eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector i ganfod modelau newydd i gefnogi'r broses adsefydlu a chyflenwi offer ar gyfer golwg gwan .

Carers....Gofalwyr

- Cydlynu gwasanaethau yn y gymuned yn gyson fel cysylltwyr cymunedol / ragnodwyr cymdeithasol i ganfod a darparu cefnogaeth i ofalwyr.

- Adolygu anogaeth feddygol i ddarparu gwell cymorth i ofalwyr.

- Gwybodaeth a Chyngor a chymorth cywir drwy DEWIS a'r Pum Awgrym Lles.

- Adolygu ac alinio egwyddorion comisiynu trydydd sector i gefnogi cyfeillio ar gyfer gofalwyr sydd angen cymorth.
- Sicrhau bod y gwaith o weithredu strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref yn cynyddu lefel y cymorth cymunedol sydd ar gael i ofalwyr.

- Comisiynu cyson ar draws iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod modelau cymorth cyfiawn ac effeithiol, yn cynnwys cyfnodau seibiant hyblyg, ledled y rhanbarth, ar gael i ofalwyr.

Viole against wome../Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

- Rhoi 'Gofyn a Gweithredu' ar waith fel rhan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru.

- Alinio strategol gyda Bwrdd VAWDASV, asesiad anghenion a chynllun strategol.

Page 6
Core Theme / Thema Graidd .. Camau i'w datblygu drwy'r Cynllun Rhanbarthol

Service map.../Mapio Gwasanaethau

- Parhau i adeiladu ar fapio gwasanaethau cyfredol drwy'r strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref', ffrwd waith Cyd Gomisiynu Ranbarthol a rhaglen Cefnogi Pobl a chysylltu'n benodol â'r blaenoriaethau a nodir ynddynt.

- Datblygu ymhellach a gwella gwefan DEWIS er mwyn iddi ddod yn brif gyfeiriadur adnoddau ar gyfer y rhanbarth.

- Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod mapio gwasanaethau ehangach yn cael ei integreiddio gyda mapio gwasanaethau Iechyd a gofal cymdeithasol fel cam pwysig tuag at greu ymateb gwasanaeth cyhoeddus ar lefel gymunedol.

Health and soc care integration .../Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Iechyd Meddwl

- Integreiddio'r ddarpariaeth gofal a chymorth ar gyfer grwpiau cleient allweddol fel y nodir yn Rhan 9 y Ddeddf ac y pwysleisir drwy Ddatganiadau Strategol o Fwriad BPRh ar gyfer pobl hŷn, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr yn ogystal â datganiadau strategol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (yn cynnwys Awtistiaeth).

- Mabwysiadu dull seiliedig ar le drwy strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref' fel carreg sylfaen sy'n sail i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Joint com and pooled../Cydgomisiynu a Chronni Cyllidebau

- Gweithredu cynllun gweithredu'r GCRh i gyflawni trefniadau comisiynu ar y cyd ar gyfer blaenoriaethau a ganfuwyd ar gyfer gofynion Rhan 9 y Ddeddf.

- Parhau i gysylltu â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ddatblygu blaenoriaethau gwaith a chynigion cenedlaethol y Bwrdd Comisiynu ar draws y rhanbarth.

Prev services/ Gwasanaethau Ataliol

- Archwilio agenda atal unigol ar draws y rhanbarth gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd hefyd yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sydd hefyd yn cynnwys Cymdeithasau Tai.

- Alinio rhaglenni gwrthdlodi ar draws y rhanbarth i osod model ataliol unigol yn seiliedig ar egwyddorion asesu cyson, gweithlu ar y cyd a chydgomisiynu.

- Trwy waith y GCRh gyda'r trydydd sector, alinio a defnyddio gweithgareddau i'r eithaf i atal y cynnydd mewn anghenion ac adeiladu ar fodelau arfer da sy'n bodoli ar hyn o bryd, megis cyfeillio, rhagnodi cymdeithasol ac ati ac i ledaenu datblygiad

mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd lle bo hynny'n bosibl.

- Darparu cefnogaeth i gynllun peilot Braenaru y Blynyddoedd Cynnar a defnyddio negeseuon allweddol i lunio modelau ymyrraeth gynnar.

Page 7

Core Theme / Thema Graidd Camau i'w datblygu drwy'r Cynllun Rhanbarthol

Info, Advice and Assist/ Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

- Darparu cefnogaeth bellach a datblygu gwefan DEWIS er mwyn creu 'y lle i fynd' i gael gwybodaeth am gefnogaeth, cyngor a chymorth
- Parhau i gefnogi lledaenu gwybodaeth gyson ac ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r grŵp cyfathrebu rhanbarthol
- Defnyddio data rheoli perfformiad GCC i lywio dyluniad y gwasanaethau
- Cefnogi mentrau pellach ar draws y rhanbarth sy'n cefnogi ymagwedd gyson tuag at GCC e.e. ymarferion hunanasesu, adolygiadau gan gymheiriaid
- Gweithio gyda rheolwyr gweithlu rhanbarthol a Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod rhaglenni newid diwylliant yn cael eu hymwreiddio a'u bod yn barhaus

Soc Ent/ Mentrau Cymdeithasol

- Gweithio gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru Centre i gynyddu a darparu cefnogaeth ar gyfer nifer o wasanaethau gwirfoddol mewn cymunedau lleol a thrwy 'Gofal i Gydweithio'.

Advocacy/ Eiriolaeth

- Alinio'r ddarpariaeth eirioli i flaenoriaethau a ganfyddir ar draws asiantaethau sy'n bartneriaid
- Gweithio gyda Rhaglen Eiriolaeth *Edau Aur* ar draws y rhanbarth drwy'r fforwm darparwr cenedlaethol
- Darparu cefnogaeth i'r Gwasanaethau Plant gydgomisiynu gwasanaeth eiriolaeth sengl.
- Mynd ati ar y cyd i ddarparu eiriolaeth gyda phartneriaid yn y trydydd sector yn enwedig o ran hyrwyddo eiriolaeth annibynnol

Camau nesaf a Chynllun Ardal ar y Cyd

Mae'r rheoliadau trefniadau partneriaeth 2015 yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (BILl) ffurfio partneriaethau er mwyn cynnal yr asesiadau poblogaeth sy'n ofynnol gan adran 14 (1) o Ddeddf 2014. Dylai'r Cynlluniau Ardal y mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol eu paratoi dan adran 14A hefyd fod yn barod ar y cyd. Bydd datblygu Cynllun Ardal ar y cyd yn creu cysondeb â'r broses asesu boblogaeth gyfunol ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr amcan gwasanaethau gofal a chymorth integredig a chynaliadwy. Mi fydd hefyd yn galluogi partneriaid i gyflawni'r ddyletswydd 14A(2)(f) yn Neddf 2014 Act i nodi manylion unrhyw beth y maen nhw'n bwriadu ei wneud ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth.

Dylai'r Cynllun Ardal nodi'r gwasanaethau gofal a chymorth penodol y bwriedir eu darparu neu eu trefnu mewn perthynas â phob thema graidd ac yn y ffordd y bydd y camau yn cael eu cyflwyno:

- ar y cyd gan bartneriaid;
- gan bob awdurdod lleol unigol; a
- gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r Asesiad hwn wedi amlygu blaenoriaethau lefel uchel o dan bob thema graidd a phrosesau datblygu angenrheidiol i weithredu'r blaenoriaethau. Sail y Cynllun Ardal ar y cyd fydd y blaenoriaethau o dan bob thema graidd a datblygiadau'r broses. Mae yna ddau fath o awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu.

1. **Y camau sydd eu hangen i wella canlyniadau i bobl a hyrwyddo llesiant.**

2. **Camau i wella prosesau rhanbarthol.**

Mae'r camau gweithredu lefel uchel i symud drwy'r Cynllun Ardal ar y Cyd wedi eu nodi a byddwn yn datblygu dadansoddiad mwy cadarn o'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau canlyniadau drwy ddatblygu'r Cynllun Rhanbarthol. Byddwn hefyd yn nodi'n fanwl camau gweithredu'r broses sydd eu hangen i ddatblygu ymagwedd ranbarthol.

Working in Partnership – Gweithio mewn Partneriaeth

Slogans go here